Cofnodion cyfarfod Cyngor Dinas Bangor a gynhaliwyd yn Neuadd y Penrhyn a thrwy gynadledda fideo Teams ar **17 Mawrth 2025** am 6.30 pm.

**YN BRESENNOL:-** Ei Deilyngdod y Maer, Cyng. Gareth Parry (Cadeirydd), Cyng. Medwyn Hughes (Dirprwy Faer), Cyng. Steve Bell, Cyng. Dylan Fernley, Cyng. Simon Hibbs, Cyng. John Wynn Jones, Cyng. Nigel Pickavance, Cyng. Gareth Roberts, Cyng. Gwynant Roberts, Cyng. Eirian Williams Roberts, Cyng. Mark Roberts, Cyng. Delyth Russell, Cyng. Lisa Toth, Cyng. John Wyn Williams a'r Cyng. Jackie Spence.

**Swyddogion:-** Martin Hanks (Cyfarwyddwr Dinesig), Carwyn Davies (Swyddog Gweinyddol) a Sioned Jones (Cyfieithydd) a dau aelod o'r cyhoedd.

**130/24 YMDDIHEURIADAU:** Cyng. Salamatu Fada, Cyng. Huw Wyn Jones, Cyng. Elin Walker Jones, Cyng. Gareth Roberts a'r Cyng. Michael Pattison.

**131/24 DATGAN BUDDIANT ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL**

Dim

**132/24 CYFRANOGIAD Y CYHOEDD**

**i) DIWEDDARIAD AROLYGYDD HEDDLU GOGLEDD CYMRU**

Rhoddodd Arolygydd yr Heddlu ddiweddariad byr am Fenter *Hel Dal Cryfhau* Gwasanaeth Heddlu Gogledd Cymru. Roedd y cyflwyniad yn cynnwys gwybodaeth am y cysyniad a'i effaith bosibl ar gyfraddau trosedd o amgylch Bangor. Soniodd yr Arolygydd hefyd am brosiect Mannau Diogel ar y cyd  rhwng Heddlu Gogledd Cymru a Chyngor y Ddinas, dyma'r prosiect cyntaf o'i fath yng Nghymru ac mae wedi'i gynllunio i roi Man Diogel yn y Ddinas i aelodau'r cyhoedd, sy'n teimlo dan fygythiad neu'n agored i niwed, fel lle i gael cymorth. Diolchodd y Cyngor i'r Arolygydd am ei gyflwyniad.

**ii) CYFLWYNIAD AR Y PROSIECT TREFI SMART**

Gohiriwyd yr eitem hon.

**iii) ANERCHIAD GAN GYNRYCHIOLYDD NATPORTH CIC**

Anerchwyd y Cyngor gan gynrychiolydd o Nantporth CIC, a thrafododd y ffordd mae'r CIC yn gweithredu, y gwelliannau diweddar a wnaed i'r stadiwm a'r heriau presennol, yn enwedig y problemau gyda'r cae.

**133/24 CYMERADWYO COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR AR 17 CHWEFROR 2025**

**PENDERFYNWYD:** derbyn cofnodion cyfarfod y Cygnor a gynhaliwyd ar yr 17eg o Chwefror 2025 fel cofnod cywir o'r cyfarfod.

### 134/24 ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR DINESIG

*Dosbarthwyd yr adroddiad cyn y cyfarfod.*

Gwnaeth Cyfarwyddwr y Ddinas sawl pwynt a oedd yn codi o'i adroddiad gan gynnwys:-

i) Sedd Wag Ward Menai - Yn dilyn llenwi'r Ward hon yn llwyddiannus yn y cyfarfod diwethaf, derbyniwyd ymddiswyddiad y cyn-Gyng. Beverly Jones, sy'n golygu bod lle gwag arall yn y Ward hon. Cyhoeddir hysbysiadau yn fuan.

ii) Ers y cyfarfod diwethaf, cadarnhawyd y bydd Clwb Criced Dinas Bangor yn croesawu tîm o Fangor, Gogledd Iwerddon ddydd Sadwrn y 5ed o Ebrill, mewn gêm gyfeillgar, a drefnwyd fel rhan o brosiect Bangor o Gwmpas y Byd.

iii) Mae Hyb Cymunedol Bangor bellach wedi'i sefydlu'n llawn yn hen Gaffi Hafan ac mae'n boblogaidd gyda defnyddwyr y trydydd sector. Ceir rhaglen gynyddol o sgyrsiau a digwyddiadau a gynhelir yn y Ganolfan.

**PENDERFYNWYD:** Derbyn yr adroddiad.

### 135/24 DERBYN ADRODDIAD Y GYLLIDEB 9 MIS YN ERBYN GWIRIONEDDOL

Cafwyd trafodaeth ynghylch Cyllideb 9 Mis Cyngor y Ddinas yn erbyn yr Adroddiad Gwirioneddol. Anfonwyd yr adroddiad hwn ymlaen llaw i'r cynghorwyr cyn y cyfarfod.

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo'r adroddiad.

### 136/24 TRAFOD YNNI SOLAR I NEUADD PENRHYN

Gohiriwyd yr eitem hon gan nad oedd unrhyw ddiweddariadau pellach ers y cyfarfod diwethaf.

**PENDERFYNWYD:** Gofyn i'r Cyfarwyddwr Dinesig gynnwys yr eitem hon ar agenda cyfarfod nesaf y Cyngor ar 14 Ebrill 2025.

### 137/24 TRAFOD GOSOD SYSTEM MONITRO A THALU O BELL

*Dosbarthwyd adroddiad dull gosod gan gwmni systemau monitro a thalu o bell i'r Cynghorwyr cyn y cyfarfod.*

Trafododd y Cyngor y pwnc uchod. Mae'r dull gosod yn rhoi gwybodaeth fanwl ar sut y bydd system fonitro ANPR yn cael ei gosod ym Maes Parcio'r Pier. Eglurodd y Cadeirydd y byddai hyn yn creu cyfle da i'r Cyngor elwa o godi tâl am geir sy'n parcio yn y Maes Parcio. Ar hyn o bryd, mae'r hen rwystr ar y fynedfa i'r maes parcio wedi'i symud y llynedd, ac os nad oes

staff yng nghiosg mynediad y Pier, ni chodir tâl am barcio yn y Maes Parcio. Bydd yr arian a gesglir o godi tâl am barcio yn cyfrannu at gynnal a chadw'r Pier. Fodd bynnag, dywedwyd wrth y Cyngor na fydd y rhai sy’n mynychu’r bwyty ar y Pier yn gorfod talu. Bydd opsiwn optio allan ar gael i’r bwyty.

**PENDERFYNWYD:** Pleidleisiwyd i gymeradwyo hyn fel cysyniad tra’n disgwyl ymchwiliad pellach i gwmnïau eraill sy’n gallu darparu gwasanaeth tebyg.

**138/24 TRAFOD CAIS GAN NANTPORTH CIC**

*Dosbarthwyd cynnig diwygiedig gan CIC Nantporth i'r Cyngor cyn y cyfarfod hwn.*

Yn dilyn y cyflwyniad a wnaed yn ystod cyfranogiad y cyhoedd, trafododd y Cyngor y cynnig i:

i) Ymestyn y brydles gyfredol i hanner can mlynedd, er mwyn helpu’r CIC i gael cyllid grant allanol a hefyd rhoi hyder i’r CIC barhau i fuddsoddi ei arian ei hun.
ii) Cynorthwyo'r CIC i adnabod a gwneud cais am arian grant i barhau â'r gwaith uwchraddio yn y stadiwm.
iii) Rhoi gwyliau rhent o dair blynedd i’r CIC, i’w helpu i ariannu’r gwaith o uwchraddio’r caeau er mwyn osgoi’r caeau yn mynd o dan ddŵr.

Cydnabu'r Cyngor y buddsoddiad helaeth a'r gwelliannau a wnaed i'r stadiwm gan y CIC a thrafodwyd y cynigion uchod yn fanwl.

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo pwyntiau i) a ii) ond gwrthod pwynt iii).

Fodd bynnag, penderfynodd y Cyngor ymhellach i ddyfarnu grant o £50,000 i'r CIC unwaith y gallai ddangos bod ganddo'r arian gweddilliol ar gyfer uwchraddio'r cae. Gofynnodd y Cyngor hefyd am gadarnhad o ymrwymiad y CIC fod timau Bangor sy’n chwarae'n rheolaidd yn y stadiwm yn cael parhau i wneud hynny.

**Daeth y cyfarfod i ben am 8.12 p.m**

CYFARWYDDWR DINESIG – Martin Hanks – CITY DIRECTOR